William Cowper 1731–1800

Bardd, emynydd a llythyrwr

Yn rheithordy Berkhamsted, Swydd Hertford, y ganwyd William Cowper yn bedwerydd o saith plentyn i'r Parch. John Cowper a'i wraig gyntaf Ann, a hynny ar 15 Tachwedd 1731. Roedd ei fam yn perthyn i'r bardd John Donne, deon yn eglwys Sant Paul, Llundain. Dim ond dau o'r plant a oroesodd a bu farw ei fam ar enedigaeth ei frawd John ar 7 Tachwedd 1737 pan nad oedd William ond chwech oed. Creithiodd marwolaeth ei fam ef yn ddirfawr gan adael argraff ddofn a pharhaol arno. Cychwynnodd ei yrfa addysgol yn lleol ac yna fe'i hanfonwyd i ysgol y Parch. William Pittman yn Markyate Street, Swydd Bedford, lle y dechreuodd astudio Lladin. Yma hefyd y cafodd ei fwlio'n gas gan fachgen llawer hŷn. Yna ym 1742 aeth i Ysgol Westminster lle roedd llawer o ddarpar arweinyddion Prydain yn cael eu haddysg. Yma hefyd y dechreuodd ei ddiddordeb mawr yn yr arwrgerddi Homeraidd trwy iddo ddarllen yr *Iliad* a'r *Odyssey*. Ymddiddorai hefyd yng ngweithiau Abraham Cowley, Matthew Prior a *Paradise Lost* gan Milton. Penderfynodd ei dad y byddai William yn cael ei hyfforddi fel bargyfreithiwr ond daeth maes o law i gasáu'r yrfa hon gyda chas perffaith gan fod arno ofn ymddangos yn gyhoeddus. Y cam cyntaf yn ei yrfa gyfreithiol oedd cael ei dderbyn i'r Middle Temple yn 1748. Yn yr un flwyddyn aeth ar ymweliad â Chaerfaddon lle yr ysgrifennodd ei gerdd gyntaf sydd ar glawr sef *Verses... on Finding the Heel of a Shoe*. Wedi cyfnod byr gartref dychwelodd i Lundain ym 1750 i gael profiad fel cyfreithiwr yn swyddfa Mr Chapman yn Greville Street. Er iddo droi yn erbyn yr alwedigaeth a thwrneiod fe barhaodd gyda'r hyfforddiant fel bargyfreithiwr ac ym 1757 fe brynodd swyddfeydd yn yr Inner Temple.

Yn ystod y 1750au hefyd fe syrthiodd mewn cariad gyda'i gyfnither Theadora, ond ni chaniataodd ei thad iddi ei briodi gan nad oedd ganddo fodd i'w chynnal ac fe gafodd gyfnod o iselder ysbryd. Nid y gyfraith oedd ei brif ddiddordeb ond llenyddiaeth. Ysgrifennai erthyglau i gyfnodolion fel *The Connoisseur*. Bu farw ei dad ym 1756 gan adael etifeddiaeth swmpus iddo a olygai nad oedd yn rhaid iddo weithio am ei fara beunyddiol. Yn y cyfnod hwn y dechreuodd ysgrifennu o ddifrif.

Cafodd gynnig swydd gan ei ewythr Ashley Cowper fel clerc yn Nhŷ'r Arglwyddi ond ni allai wynebu cyfweliad cyhoeddus ac fe dorrodd ei iechyd. Oherwydd teimladau o ofid a methiant fe geisiodd yn aflwyddiannus wneud amdano'i hun. Yn ei anobaith trodd at ei gefnder, y Parch. Martin Madan, a oedd yn Fethodist, ac yna fe'i hanfonwyd at Dr Nathaniel Cotton yn St Albans a oedd yn cynorthwyo pobl oedd ag anawsterau meddyliol. Tra oedd yno darllenodd adnod o'r Beibl, 'Gan ras Duw, ac am ddim, y maent yn cael eu cyfiawnhau, trwy'r brynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu, yr hwn a osododd Duw gerbron y byd, yn ei waed, yn aberth cymod trwy ffydd' (Rhufeiniaid 3:24–25). Fe'i llanwyd ag ymdeimlad o lawenydd ac fe gafodd dröedigaeth. Ymddiswyddodd gan symud i Huntingdon, ger Caergrawnt, i fyw a dibynnu yn llwyr ar haelioni ei deulu i'w gynnal. Daeth yn gyfeillgar gyda theulu'r Parch. Morley Unwin ac aeth i fyw atynt. Bu farw Morley Unwin ym 1767 pan syrthiodd oddi ar ei farch. Symudodd ei weddw Mary a'i ferch i Olney lle roedd yr enwog Barch. John Newton yn giwrad ac aeth Cowper gyda hwy. O dan ddylanwad Newton cyhoeddodd Cowper hanes ei dröedigaeth a chyfrol o gerddi defosiynol sef yr *Olney Hymns* (1779).

Ym 1773 torrodd ei iechyd eto ac fe syrthiodd i iselder mawr gan geisio cyflawni hunanladdiad fwy nag unwaith. Yn y cyfnod hwn daeth i'r casgliad ei fod yn gwbl wrthodedig gan Dduw ac na fyddai byth yn cael ei dderbyn. O ganlyniad trodd ei gefn ar bopeth Cristnogol. Yn y blynyddoedd dilynol bu'n eithriadol o gynhyrchiol; cyhoeddodd gerddi yn cynnwys 'The Progress of Error', 'Truth', a 'Table Talk' ac ymddangosodd ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth sef *Poems by William Cowper, of the Inner Temple, Esq.,* ym 1782. Ym 1785 cyhoeddodd ei gerdd *The Task* a ddaeth yn eithriadol boblogaidd gyda'r garfan efengylaidd gan ei bod yn condemnio caethwasiaeth a chreulondeb tuag at anifeiliaid ac yn galw ar y dosbarth breiniol i ystyried eu cyfrifoldeb cymdeithasol. Gweithiodd am flynyddoedd maith yn cyfieithu gweithiau'r bardd Groegaidd Homer ac fe gyhoeddwyd y gwaith gorffenedig mewn dwy gyfrol ym 1791. Dair blynedd yn ddiweddarach fe aeth i iselder mawr unwaith eto a barhaodd am weddill ei oes. Cyfansoddodd rai gweithiau Saesneg a Lladin yn ystod y blynyddoedd dilynol ond bu farw ar 25 Ebrill 1800 a chladdwyd ei weddillion yng nghapel St Edmund yn eglwys St Nicholas, East Dereham.